COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Chwefror 10fed, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Alun Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Cyng.R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Thelma Cordingley, R. Phillip Roberts, William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganwyd buddiant yn y ddau gais cynllunio a ganlyn:

- C15/1257/39/LL – Adeiladu dau dŷ deulawr ar dir ger Cesail y Coed, Llanengan – Cynghorwyr Robert Morris Jones ac O. Hefin Roberts oherwydd fod yr ymgeisydd yn berthynas teuluol
- C15/1329/39/LL – Atgyweirio a throsi hen adeilad amaethyddol yn uned wyliau yn Murpoeth, Cilan – Cynghorwyr Wyn Griffiths a Catherine Llewelyn Morris oherwydd fod y blaenaf yn berthynas teuluol a'r olaf yn berchennog unedau gwyliau ei hun (ni adawodd y cyfarfod na chymryd rhan yn y drafodaeth).

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 13eg, 2016 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C15/1162/39/LL Creu llwybr estyllog at lan Afon Soch a chodi llwyfan bysgota/ hamddena – Coed yr Allt, Lôn Engan, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau eisoes – gweler 8. Dyfarniadau Cynllunio isod**

C15/1241/39/LL Cais Ôl-weithredol – Cais i gadw llwyfan bren yng nghefn yr eiddo – Nyth y Frân, Aber-soch – **Cefnogir**

Cymerodd yr Is-gadeirydd y Gadair i drafod y cais isod oherwydd buddiant y Cadeirydd ynddo (gweler 1. Datgan Buddiant Personol uchod):

C15/1257/39/LL Cais Diwygiedig – Adeiladu dau dŷ deulawr – Tir ger Cesail y Coed, Llanengan **– Cefnogir a chedwir at y sylwadau a gyflwynwyd â'r cais gwreiddiol, sef y dylent fod yn dai**

	fforddiadwy/angen lleol ac nid ar y farchnad agored [Datgan Diddordeb – RMJ ac OHT]
C15/1260/39/LL	Cais Diwygiedig (Newid yn y disgrifiad a'r bwriad) – Estyniad unllawr ochr a chefn, codi uchder to'r prif dŷ i greu ystafelloedd yng ngwagle'r to, gosod ffenestri to, ynghyd ag addasiadau i'r edrychiad – Abbotsville, Yr Harbwr, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/1305/39/LL	Adeiladu tŷ annedd ar safle modurdy dwbl presennol – Roslyn, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Cefnogir**
C15/1329/39/LL	Atgyweirio a throsi hen adeilad amaethyddol yn uned wyliau, gan gynnwys estyniad bach i'r cefn a ffordd fynediad newydd – Murpoeth, Cilan **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – WG a CLLM]**
C15/1349/39/RC	Diddymu Cytundeb 106 Angen Fforddiadwy **–** Ocean Crossing, Bwlchtocyn **– Gwrthwynebir, oherwydd rhoddir cytundeb/amod am reswm**
C15/1378/39/LL	Estyniad unllawr ochr â theras to uwchben – Pen y Bennar, Lôn Traeth, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/0089/39/LL	Cais Diwygiedig **–** Dymchwel porth car presennol a chodi estyniad to brig yn ei le, codi dwy ffenestr gromen blaen ac estyniad unllawr cefn – 6 Maes Awel, Aber-soch **– Gwrthwynebir, oherwydd ei fod yn orddatblygiad mewn congl gyfyng ar stád dai**
C16/0090/39/LL	Adnewyddu cais i godi uchder to'r tŷ a gosod dwy ffenestr gromen a ffenestr to – Woodlands, Lôn Gwydryn, Aber-soch **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**

- Llwyddwyd cysylltu â Gwyn Parry ac mae'n fodlon cloi'r giât ond, mae angen goriad sbâr i sicrhau nad oes neb yn y toiledau cyn eu cloi.
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth npower yn cadarnhau y trosglwyddir cyflenwad trydan y toiledau ar Chwefror 18fed. Dychwelir y ffurflen Datganiad TAW ar ôl gwirio mai 5% a dala'r Cyngor.

b) **Gwefan y Cyngor**

Ni lwyddwyd anfon mwy o ddogfennaeth oherwydd trafferthion rhyngrwyd y Clerc – fe'u hanfonir ar ddisg oni ddatrysir hwy'n fuan.

c) **Glanhau Afon Soch**

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth.

ch) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'/Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**

Derbyniwyd caniatâd cynllunio a deallir nad oes gwrthwynebiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru ychwaith; dychwelwyd y siec o £50.00 ar gyfer y Cais Caniatâd Amddiffyn Rhag Llifogydd, gan y'i cyhoeddir dan Is-ddeddfau – dim angen tâl. Cyn dechrau'r gwaith, penderfynodd y contractwr ofyn am farn syrfewr, h.y. os yw'r tir ddigon caled i dderbyn yr adeiladwaith – gwell

gwneud cyn ei osod na darganfod wedyn. Ni fu'r tywydd gwlyb o gymorth ychwaith. Gofynnwyd i Datrys archwilio'r safle ac mae peth oedi oherwydd hyn – cyfarfu'r Clerc, y contractwr a swyddog o'r cwmni i drafod y mater; bydd hyn yn gost ychwanegol. O ganlyniad, gofynnwyd i AHNE Llŷn a fyddai modd ymestyn y dyddiad cwblhau am tua tair wythnos arall, ond ni dderbyniwyd ymateb hyd yma.

d) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**
Ni dderbyniwyd ymateb i'r llythyr a anfonwyd ar Fedi 15fed, 2015 – ysgrifennir i fynegi anfodlonrwydd.

dd) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd copi o ohebiaeth a anfonwyd at y Gofrestrfa Tir a pherchennog 23 Maes Awel, Aber-soch.

e) **Wicksteed Playgrounds – Arolwg Diogelwch Blynyddol**
Derbyniwyd adroddiad yr arolygwr ac anfoneb (gweler 9. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Cyfarfu'r Clerc â'r Arolygwr i drafod sut i osod siaced newydd y beic modur. Tynnodd sylw at yr isod:

Cae Chwarae Mynytho
- tyfiant gwellt/chwyn rhwng ymylon y teiliau du
- angen naddu pennau sgriwiau ar y ffens

Cae Chwarae Aber-soch
- deil ei bryder am yr offer sglefrfyrddio, sef diffyg cefn rhag atal codwm oddi arnynt ond, mynna'r cwmni cyflenwi (Record Ltd.) eu bod yn ddiogel; mae angen glanhau'r rhwd ac ailbaentio'r panelau; angen mynd â pheipen rhydd a ddaeth rhywun i'r safle oddi yno, gan nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch
- siglenni – rhwd, paentio ac adfer y *shackles* – angen cysylltu â G.L. Jones
- arwyddion – angen sgriwiau i'w hailosod.

Cytunodd y Cadeirydd ac EWR ddod i gynorthwyo'r Clerc osod rhai o'r darnau ar yr offer a dderbyniwyd eisoes – angen dau bâr o ddwylo.

f) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Anwen Davies, Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol, ond deallwyd y trefnir cyfarfod i gynghorau cymuned/tref yn y dyfodol agos.

ff) **Cyng. Wyn Williams – Is-ddeddf Masnachu ar y Stryd**
Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth bellach.

g) **7. Gohebiaeth** a) **Un Llais Cymru (ULlC) –** i) ***Ymgynghoriad Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft***
Ni fynychodd y Clerc y cyfarfod a gynhaliwyd yn Venue Cymru, Llandudno, ond derbyniwyd cwestiynau a nodiadau oddi wrth ULlC; angen sylwadau erbyn Chwefror 15fed.

ng) **7. Gohebiaeth Economi a Chymuned – Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig – Gwobrau Traeth 2016**

Sicrhaodd Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, y dyfernir y Faner Las i Borth Fawr a Gwobr Arfordir Glas i Borth Neigwl. Penderfynwyd talu am gost y ceisiadau a phrynu'r baneri. Crybwyllodd, hefyd, yr argymhellir dan Her Gwynedd, na fydd rheolaeth traethau i'r rhai sydd heb Faner Las/Werdd – buasai Marchros yn un o'r rheiny gan nad yw'r pwynt samplo dŵr ddigon agos.

5. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Biniau Halen**

Trafodwyd y rhain unwaith eto a phenderfynwyd gofyn a throsglwyddir hwy'n llawn i'r cynghorau cymuned/tref cyn ymateb; ni dderbyniwyd ateb cyn cyfarfod heno.

b) **Rhaglen Waith mis Chwefror**

- Cilffordd 38 (Lôn Golff, Aber-soch) – cwblhawyd rhan gyntaf y gwaith ac ailagorir hi am ychydig cyn cael ei chau ddydd Llun, Chwefror 15fed am ddiwrnod neu ddau i'w hailwynebu
- Llwybr 69 (Stád Sant Tudwal, Mynytho) – ei ailagor
- Nantrhiwdar, Nanhoron – gwaith traenio.

c) **Cwynion**

Adroddwyd fod:

- angen glanhau Pont Newydd, Llangian
- y dylid ysgrifennu i ofyn pam adeiladwyd gwter newydd ar ochr y ffordd, ble nad oes dŵr yn rhedeg/llifo, ger Bryn Golau, Mynytho – mynegwyd ei fod yn wastraff arian llwyr, yn arbennig y goleuadau traffig a fu ar y safle am bron i wythnos gyfan, ynghyd â gofyn pwy wnaeth y cais a pham bod ei hangen
- tair lamp stryd yn Sarn Bach wedi torri – ger yr ysgol, ar y groesffordd a ger Pant Gwyn Bach.

ch) **Dŵr Cymru – Dŵr a Charthffosiaeth yn dod o 'fanol' ger Bryncelyn Uchaf, Cilan**

Derbyniwyd ateb oddi wrth Kate Smith, Swyddog Gofal Cwsmer, yn nodi, yn dilyn ymweliad gan un o'r Technegwyr Rhwydwaith, mai mater i'r Adran Priffyrdd sy'n gyfrifol am glawr y manol ac nad oedd yn un o asedau Dŵr Cymru. Penderfynwyd ateb drwy ddweud fod carthffosiaeth yn byrlymu ohono ac un ger Tan y Bryn, Sarn Bach, hefyd, gan gywiro mai ger Bryncelyn Isaf yn hytrach nag Uchaf mae'r broblem.

d) **Huw Prydderch Davies, Swyddog Bwrdeistrefol Dwyfor – Arwydd Stryd Ystád Sant Tudwal, Mynytho**

Derbyniodd gais oddi wrth un o drigolion yr uchod am arwyddion stryd newydd i'r ffordd fel osodwyd ar Stádau Mur Poeth a Phen y Bryn yn ddiweddar, ond, mae rhai yno'n barod a chyn ateb hoffai dderbyn barn y Cyngor. Atebwyd drwy ddweud yr hoffid gweld yr enw Cymraeg yno ond, deallwyd, ar ôl blits Mynytho ychydig flynyddoedd yn ôl, y buasai'n rhaid

cysylltu â'r Post Brenhinol i wneud hynny a chael cydsyniad y preswylwyr. Atebodd HPD y gallai osod arwyddion dwyieithog pe bai arian yn weddill yn y gyllideb – derbyniwyd hynny.

6. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Ni lwyddwyd cysylltu â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i ofyn am ei sylwadau ar yr isod, ond rhestrir yr ailagorir a) Llwybr 69 ar Raglen Waith Trafnidiaeth a Phriffyrdd mis Chwefror yn ystod y mis:

a) ***Llwybr 69 Bryn Ffynnon, Stad Sant Tudwal, Mynytho***
b) ***Taith Gerdded Ddigidol***
c) ***Shanty, Pen Bennar***
ch) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
d) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
dd) ***Torri'r Llwybrau***
e) ***Un Llais Cymru (ULlC) –*** i) ***Ramblers Cymru – Ydych chi eisiau gwarchod a gwella'r mannau lle mae pobl yn cerdded yn eich ardal chi?***
f) ***Llwybr yr Arfordir – Grisiau Porth Ceiriad, Nant/Carreg Haul***
Adroddwyd y bu tirlithriad ger y grisiau ac y gallai'r tir roi ger yr ail – erydwyd oddi tano; hysbysir yr Adran.
ff) **Llwybr Cyhoeddus Rhif 40 – Penbenar, Aber-soch**
Derbyniwyd copi diddorol o adroddiad o gyd-gyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor a dirprwyaeth o Is-bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd ar Ragfyr yr ail, 1983 parthed yr uchod. Yr argymhelliad oedd cefnogi datganiad y Cyngor hwn fod y llwybr fel ag yr oedd ar y pryd yn annerbyniol a phwyso am iddo gael ei adfer i'w gwrs a'i gyflwr gwreiddiol...

7. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Hyfforddiant mis Chwefror***
Rhestr, er gwybodaeth, o'r cyrsiau a gynhelir yn ystod y mis.
ii) ***Aelodaeth 2016 – 2017***
Anfoneb am £479.00 yn seiliedig ar 1689 o anheddau trethadwy yn ôl .284c yr annedd o'r Rhestr Brisio yn hytrach na'r Gofrestr Etholiadol; penderfynwyd ailymaelodi yn dilyn trafodaeth a yw o fudd i'r Cyngor ai peidio.

b) **Llywodraeth Cymru**
i) ***Swm Priodol dan Adran 137(4)(a) Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Gwariant Adran 137: Y terfyn ar gyfer 2016 – 2017***
Llythyr yn hysbysu mai'r uchafswm y gellid ei wario ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fydd £7.42 am bob etholwr.
ii) ***Cymru Effeithlon – Cyngor a Gwybodaeth am Ynni, Gwastraff a Dŵr***
Taflen, er gwybodaeth.

c) **Cyngor Gwynedd**
i) ***Asesiad Digonolrwydd Chwarae***

Holiadur er mwyn adnabod yr holl ddarpariaeth chwarae a fodola ar draws y Sir – fe'i dychwelwyd eisoes.

ii) ***Y Pwyllgor Safonau***
Copi, er gwybodaeth, o adroddiad blynyddol 2014 – 2015 a hysbyseb am aelod annibynnol o'r Pwyllgor.

ch) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Ymgynghoriad ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Arfaethedig ar gyfer Llamhidyddion yr Harbwr ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig Arfaethedig Newydd ac Estynedig ar gyfer Adar y Môr**
Angen sylwadau erbyn mis Ebrill.

d) **G.D. Roberts a'i Fab, Ymgymerwyr**
Rhestr brisiau newydd i'w mabwysiadu o Fawrth 1af, 2016 – fe'u derbyniwyd.

8. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C15/1050/39/LL	Adeiladu estyniad deulawr ochr, ymestyn balconi, creu ffenestr gromen ac un ffenestr arall – 49 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1093/39/LL	Addasu modurdy yn ystafell aml bwrpas a gosod balconi uwchben – Encil y Môr, 3 Maes Awel, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1162/39/LL	Creu llwybr estyllog at lan Afon Soch a chodi llwyfan bysgota/ hamddena – Coed yr Allt, Lôn Engan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1171/39/LL	Newid defnydd ac addasiadau i ran o siediau storio presennol er creu caffi tymhorol (Mawrth 1af i Hydref 31ain), codi sied storio ar gyfer sgis jet, gosod canllaw ar ben rhan o'r wal amddiffyn o'r môr presennol a gosod pwtres goncrid ar gornel y llithrfa – Mickey's Boatyard, Machroes, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1180/39/LL	Dymchwel cwt glan môr presennol a chodi un newydd yn ei le a llwyfan cysylltiedig – Cwt Glan Môr 34, Borth Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1222/39/CC	Torri coeden – Tir gyferbyn â Land & Sea, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C15/1295/39/TR	Ailadeiladu llinell drydan uwchddaearol â dargludyddion ychwanegol – Aber-soch – Caereglwys, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C15/1297/39/DA	Datblygiad ansylweddol i ychwanegu dwy ffenestr yn nrychiad dwyreiniol y pod, dileu ffenestr to velux o'i edrychiad deheuol a chodi ei godiad i 35° er gosod teils clai arno – Rose Lea, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddiamodol**
C15/1342/39/DA	Diwygiad ansylweddol i newid siâp to'r lolfa haul arfaethedig – Parc y Delyn, 6 Ystâd Sant Tudwal, Mynytho – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C15/1345/39/CC	Gwaith tocio coeden – Ysgol Gynradd Aber-soch, Lôn Gwydryn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

9. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Chwefror y Clerc ac ad-daliad goriad ychwanegol i'r toiledau (£2.95 – Rh/S 001966), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £461.72 (Rh/S 001963 – Gwagio Biniau'r Caeau Chwarae a Glanhau Toiledau Lôn Traeth)
b) Cyngor Gwynedd – £100.76 (Rh/S 001964 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)
c) Wicksteed Leisure Ltd. – £108.00 (Rh/S 001965 – Arolwg Diogelwch y Caeau Chwarae)
ch) Un Llais Cymru – £479.00 (Rh/S 001967 – Tâl Aelodaeth 2016 – 2017)
d) Clorian Cymru – £62.28 (Rh/S 001968 – Darnau i gyfrifiadur y Teledu Cylch Cyfyng)

Derbyniadau
a) Arian Mynediad y Toiledau – £8.90
b) ScottishPower – £2.38 (Wayleave Cae Chwarae Aber-soch)

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Mawrth 9fed, 2016 am saith o'r gloch